Shelter Cymru

Etholiad Senedd 2021

Ein cynigion

Mae Covid-19 wedi profi'n glir pa mor ganolog yw cartref da i iechyd cyhoeddus a lles corfforol a meddyliol. Bydd tai yn dal i fod yn fater iechyd cyhoeddus tan bod gan bawb yng Nghymru gartref da; mae'n fater o fywyd a marwolaeth.

Mae gennym gyfle digynsail i leihau cysgu ar y stryd yn ddramatig drwy fuddsoddi mewn ymyriadau sydd wedi eu profi eu bod yn gweithio. Mae ein cynigion ar gyfer maniffestos pleidiol wedi'u cynllunio i godi ansawdd bywyd pobl a chefnogi Cymru gryfach ac iachach. Agwedd o'r cynigion yr ydym yn eu hystyried sy'n waelodol i bopeth yw'r **corfforiad llawn o'r hawl i gartref digonol i gyfraith Cymru.**

Ataliad cynhwysol

- **Cydnabod pwysigrwydd cartrefi da fel mater iechyd cyhoeddus** ac adlewyrchu hyn yn y corfforiad llawn o'r hawl cyfreithiol i gartref yn ogystal ag wrth osod cyllideb, fel bod tai yn derbyn y buddsoddiad sydd ei angen i gynnal iechyd a lles pobl.

- **Adeiladu 4,000 o dai cymdeithasol y flwyddyn** oherwydd bod angen cyflenwad cynyddol o dai fforddiadwy, diogel **yn fwy nag erioed.**

- Fel elfen o'r hawl i gartref, **sicrhau bod pob person yng Nghymru â'r gallu i fyw mewn tŷ sy'n fforddiadwy** drwy dynnu ynghyd llinynnau gwahanol o gefnogaeth ariannol sy'n bodoli eisoes.

- **Archwilio datganoli'r elfen dai o Gredyd Cynhwysol** i wneud y system yn fwy ymatebol i'r farchnad dai yng Nghymru ac i anghenion pobl.

- **Adolygu safonau ansawdd tai yng nghyd-destun Covid** fel bod tai newydd yn cael eu hadeiladu i gwrdd ag anghenion pobl yn nhermau glanweithdra, preifatrwydd a mynediad i ofod tu allan.

- **Dod â throi allan heb fai i ben** er mwyn rhoi hyder i bobl sy'n rhentu na fyddant yn cael eu troi allan oni bai bod rheswm sy'n gyfiawnadwy; a **chael gwared â'r sail ôl-ddyledion rhent difrifol** o'r Ddedf Rhentu Tai (Cymru), i alluogi'r llysoedd i ystyried amgylchiadau lliniarol sy'n effeithio ar denantiaid preifat, fel Covid.

Ataliad wedi'i dargedu

- **Creu dyletswydd atal digartrefedd sector cyhoeddus** fel bod yr holl wasanaethau yn chwarae'u rhan wrth atal pobl rhag dod yn ddigartref.

- **Atal digartrefedd o dai cymdeithasol** fel bod unrhywun, lle nad oes modd achub y tenantiaeth, yn cael ei gefnogi i sefyllfa mwy addas a ddim yn syrthio drwy'r rhwyd i ddigartrefedd.

- **Datblygu protocolau cyn-gweithredu Cymreig ar gyfer y sectorau rhentu cymdeithasol a phreifat** fel bod Cymru yn gallu diffinio ei dull ei hun i atal troi allan.

- **Dileu y rhwystrau ariannol sy'n atal pobl ifanc rhag gweithio** tra eu bod yn byw mewn llety â chymorth, ac sy'n llesteirio eu hannibyniaeth a chyfleoedd bywyd.

Ataliad argyfwng

- **Darparu cyllid i awdurdodau lleol** i'w galluogi i ymateb yn hyblyg i anghenion tai pobl, er enghraifft drwy brynu dyled rhent tenantiaid sy'n ei chael hi'n anodd, a phrynu tai lle ceir tenantiaid preswyl neu lle maent yn wag er mwyn eu hadnewyddu a'u gosod am rhent fforddiadwy.

- **Dod â'r prawf angen blaenoriaeth i ben** fel bod pawb sy'n ddigartref yn derbyn y gefnogaeth sydd ei angen arnynt i ddod o hyd i gartref.

Ataliad brys

- **Codi safonau llety brys** gan gynnwys rhoi terfyn ar y defnydd o ofod llawr sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol yn waeth na llety Gwely a Brecwast.

Ataliad adferiad

- **Cyflwyno ad-gartrefu cyflym** drwy gefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu cynlluniau i ail-ddylunio'r system ddigartrefedd, a'i ddargyfeirio wrth arhosiadau hir mewn llety dros dro.

- **Cynyddu'r ddarpariaeth o lety a chefnogaeth Tai yn Gyntaf** er mwyn atal cysgu ar y stryd hir-dymor.

- **Diwygio dyraniadau tai cymdeithasol** i ddileu'r rhwystrau i bobl sy'n ddigartref i gael mynediad i dai cymdeithasol.

Dyma ein cynigion i'r Llywodraeth nesaf yng Nghymru i'w mabwysiadu yn 2021 a thu hwnt. Os hoffech drafod y rhain ymhellach cysylltwch â jennie Bibbings ar jennieb@sheltercymru.org.uk.

Teipoleg o ataliad digartrefedd

Ataliad cynhwysol

- Cydnabod pwysigrwydd tai da fel mater iechyd cyhoeddus.
- Adeiladu 4,000 o dai cymdeithasol y flwyddyn.
- Dod â tenantiaethau tymor penodol i ben a dod â'r sail meddiant ôl-ddyledion rhent i ben.
- Sicrhau bod gan bob person y gallu i fyw mewn cartref sy'n fforddiadwy.
- Adolygu safonau ansawdd tai yn sgîl Covid-19.
- Datganoli elfen tai Credyd Cynhwysol.

Ataliad wedi'i dargedu

- Datblyg protocolau cyn-gweithredu i holl dai rhent.
- Dod â throi allan i ddigartrefedd o dai cymdeithasol i ben.
- Dileu'r rhwystrau ariannol sy'n atal pobl ifanc digartref rhag gweithio.
- Cyflwyno dyletswydd ar bob gwasanaeth cyhoeddus i atal digartrefedd.

Ataliad argyfwng

- Cyllido awdurdodau lleol i ymateb yn hyblyg i anghenion tai pobl.
- Dod â'r prawf angen blaenoriaeth i ben.

Ataliad brys

- Codi safonau llety brys i ddod â defnydd o ofod llawr i ben.

Ataliad adferiad

- Cyflwyno ad-gartrefu cyflym ar draws Cymru.
- Cynyddu'r Grant Cymorth Tai.
- Diwygio dyraniadau tai cymdeithasol i ddileu rhwystrau i bobl sy'n ddigartref.